OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 3095 (Cy. 312)

# YR IAITH GYMRAEG

# Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

O dan Ran II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ("y Ddeddf") caiff Bwrdd yr Iaith Gymraeg roi hysbysiad ysgrifenedig i unrhyw gorff cyhoeddus lunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach wedi'i ddiddymu a throsglwyddwyd y swyddogaeth o roi hysbysiad o dan Ran II o'r Ddeddf i Gomisiynydd y Gymraeg yn rhinwedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru amryw o gyrff cyhoeddus at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf ac yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweinidogion Cymru bellach) bennu cyrff cyhoeddus at y dibenion hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu Corff Adnoddau Naturiol Cymru at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf.

Mae chwe Gorchymyn blaenorol wedi'u gwneud o dan adran 6 o'r Ddeddf:

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996 (O.S. 1996/1898);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1999 (O.S. 1999/1100);

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2001 (O.S. 2001/2550(Cy.215));

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2002 (O.S. 2002/1441(Cy.145));

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004 (O.S. 2004/71(Cy.7)); a

Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2008 (O.S. 2008/1890(Cy.179)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad,

paratowyd asesiad effaith rheoliadol o gostau a buddiannau tebygol cydymffurfio a'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 3095 (Cy. 312)

# YR IAITH GYMRAEG

## Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *13 Rhagfyr 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *14 Rhagfyr 2012* |
| *Yn dod i rym* | *4 Ionawr 2013* |

Gan ei bod yn ymddangos i Weinidogion Cymru fod y person y cyfeirir ato yn y Gorchymyn hwn yn berson sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

Yn awr felly, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2012 a daw i rym ar 4 Ionawr 2013.

**Pennu Corff Cyhoeddus**

**2.** Pennir Corff Adnoddau Naturiol Cymru(**3**) at ddibenion Rhan II o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

*Leighton Andrews*

(**1**) 1993 (p.38).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); g*weler* y cyfeiriad at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(**3**) Sefydlwyd Corff Adnoddau Naturiol Cymru gan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903(Cy.230)).

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

13 Rhagfyr 2012